Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
**Torfaen**
Public Services Board

# Cefnogaeth i'r Teulu Torfaen

## Gwybodaeth i Ymarferwyr

Bwriedir dull Tîm o Gylch y Teulu yn Nhorfaen i'w ddefnyddio gan unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws y gweithlu. Mae'n helpu ymarferwyr mewn gwahanol fudiadau i gydlynu a chynllunio'u gwaith ac ymyraethau i gwrdd ag anghenion teulu/plentyn/person ifanc er mwyn dod â newid cadarnhaol.

Mae'r 'Tîm' yn cynnwys y teulu, gweithiwr arweiniol ac unrhyw wasanaethau cefnogol sy'n debygol o ddarparu cefnogaeth ychwanegol.

Bydd y teulu yn cael gweithiwr arweiniol penodedig a fydd yn sicrhau bod y gefnogaeth ychwanegol y mae'r Tîm yn cytuno, yn digwydd a'u bod yn derbyn cefnogaeth yn ystod y broses.



Yr Asesiad Cefnogaeth Teuluoedd yw'r prif declyn ar gyfer asesu angen cyfannol a chael mynediad i gefnogaeth yn Nhorfaen. Proses wirfoddol yw'r Broses Cefnogi'r Teulu. Bydd angen i chi gael caniatâd y teulu i atgyfeirio; heb ganiatâd ni all y broses fynd ymlaen. Efallai bydd plant hŷn dros 12 oed am wneud eu penderfyniad eu hunain ac mae ganddyn nhw hawl i wneud hynny.

# Beth yw'r manteision?

- Mae'r ACT yn creu cofnod sengl o anghenion y plentyn/person ifanc ac yn galluogi rhoi'r gefnogaeth mewn lle.
- Mae'r ACT yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r achos sylfaenol ac nid dim ond yr angen cyflwyno.
- Mae cael un gweithiwr arweiniol yn golygu bod gan deuluoedd un cyswllt sy'n osgoi dyblygu, ail-adrodd a dryswch.
- Mae'r ACT yw asesu'r teulu cyfan yn gyfannol, gan roi cefnogaeth i aelodau'r teulu i leihau'r risg y bydd anghenion y teulu yn cynyddu.



- Ystyrir anghenion teuluol o ystod eang o wahanol onglau yn hytrach na chanolbwyntio ar unrhyw un asiant, gwasanaeth neu angen.
- Mae TGT yn ei gwneud yn haws i ymarferwyr i rannu gwybodaeth briodol yn fwy effeithiol i benderfynu pa wasanaethau sydd angen, cydlynu cyflenwad a dilyn hynt
- Caiff gwybodaeth ei storio a'i rannu'n briodol (hy gyda chaniatâd) ac yn ddiogel rhwng asiantaethau ac ymarferwyr
- Mae'r broses yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol ac sy'n gymesur â'r angen

- Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus ac mae cynlluniau wedi'u haddasu i fodloni anghenion newidiol trwy adolygiadau rheolaidd
- Mae'r Broses Cefnogi Teuluoedd yn helpu gyda gwaith trawsffiniol, aml-asiantaeth.
- Mae asesiadau o well ansawdd yn cynorthwyo gwasanaethau i dargedu'r rheiny gyda'r angen mwyaf ac mae'r broses yn helpu cwrdd ag angen nad ydyn nhw wedi eu cwrdd.

# Beth yw'r broses?

**Adnabod pryder** – Mae gan aelod o'r teulu anghenion sy'n aneglur neu nad oes modd cwrdd â nhw gan eich mudiad yn unig.

**Cynnwys y teulu a'r plentyn/ person ifanc** - Esboniwch y broses a sut y gall eu helpu a sicrhau eu bod yn cael caniatâd penodol cyn cyflwyno atgyfeiriad.

**Cysylltwch â Thîm Cydlynu TGT** i wirio gyda meysydd gwasanaeth eraill. Byddan nhw wedyn yn dyrannu atgyfeiriadau i'r gwasanaeth/gweithiwr arweiniol mwyaf priodol. Caiff atgyfeiriadau mwy dwys/ cymhleth (Camu lan/Camu lawr) eu trafod yn y Panel Cefnogi Teuluoedd Aml-asiantaeth.

**Asesu Anghenion** – Sgwrs wyneb-yn-wyneb â'r teulu, i asesu eu cryfderau a'u hanghenion a beth ellir gwneud i'w cefnogi. Mae'r gweithiwr arweiniol yn gweithio gyda'r teulu i greu a gweithredu cynllun teuluol gyda gweithrediadau i'r teulu.

**Ffurfio'r Tîm o Gylch y Teulu (TGT)** – Adnabod y gwasanaethau priodol i helpu i ddarparu'r gefnogaeth ychwanegol sydd angen. Gall y tîm fod yn un ymarferydd neu sawl person o wasanaethau gwahanol.

**Rhoi Cefnogaeth** – Y gweithiwr arweiniol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r teulu ac mae'n cydlynu'r gwasanaethau i gefnogi'r teulu.

**Adolygu a diweddaru** – Adolygir cefnogaeth yn rheolaidd hyd nes y bydd digon o gamau wedi'u cymryd i alluogi cau'r ACT.

# Beth mae'n ei olygu i fod yn Weithiwr Arweiniol?

Yn fras, eiriol dros deulu, cydlynu gwasanaethau a sicrhau nad yw pethau'n syrthio "rhwng dwy stôl".

Bydd y gweithiwr arweiniol yn cwblhau'r ACT ac yn adolygu hyn ymhen 6-12 wythnos (yn dibynnu ar amgylchiadau'r teulu).

Rhywun sy'n rhoi cefnogaeth ac anogaeth i deulu trwy'r da a'r drwg er mwyn adnabod eu hamcanion yw gweithiwr arweiniol.

Chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf i'r teulu.

Mae gweithiwr arweiniol yn gyfrifol am gydlynu'r gefnogaeth y mae'r teulu angen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod angen i weithiwr arweiniol gyflawni'r holl anghenion cymorth, mae'n ddull cydlynu i sicrhau bod cyfathrebu rhwng gwasanaethau a theulu yn effeithiol a bod y teulu a'r unigolion a enwir ar y cynllun yn fodlon gyda'r cefnogaeth yn cael ei ddarparu.

Pryderu am blentyn/person Ifanc/ teulu?

Plentyn mewn perygl o niwed syth

IE

Gofal Cymdeithasol 01633 762200

DIM


Ffoniwch 01495 7642827(Gogledd) neu 01495 742854 (De) i weld a oes ACT yn bodoli eisoes

ACT yn bodoli?

IE

Cysylltu â'r Arweinydd Proffesiynol

DIM



Siarad â'r teulu am atgyfeirio a chael caniatâd

Cais am wybodaeth bellach

Rhoi i'r gwasanaeth mwyaf priodol

NEU

Trafodaeth Panel Teuluoedd yn gyntaf (A nghenion dwys/cymhleth)

Cysylltu â Gofal Cymdeithaso Dim cytundeb ar gamu lawr

Gweithiwr arweiniol yn cwblhau ACT ac yn cynll u nio gyda'r teulu

Adolygiad

Adnabod anghenion Pellach - Cynllun newydd

Cau

Camu-lan at ofal Cymdeithasol



Cefnogaeth gan Asiantaeth sengl

Gwasanaethau Cynhwysol

# Beth sydd angen i fi gofio?

- Teclyn yw'r Asesiad Cefnogi Teuluoedd ar gyfer **asesu angen a mynediad i gefnogaeth** i blant/pobl ifanc a theuluoedd yn Nhorfaen.
- Dylai'r broses Cefnogi Teuluoedd gael ei defnyddio gan unrhyw **fudiad neu ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant/pobl ifanc.**
- Dylai cwblhau Asesiad a ffurfio TGT gefnogi **adnabyddiaeth gynnar o angen a gweithredu'n ataliol.**
- Dylai Asesiad Cefnogi Teuluoedd (ACT) arwain at weithredu integredig effeithiol trwy **gynllun cefnogi ar gyfer pob plentyn/person ifanc/aelod o'r teulu naill ai gan ymarferydd sengl neu dîm integredig o gwmpas y plentyn.**
- Dylai'r Broses Cefnogi Teuluoedd fod yn berchen i **blant/pobl ifanc a'u teuluoedd** a dylai weithredu gyda chytundeb clir a phenodol. Dylai plant/pobl ifanc ymwneud yn weithredol yn yr asesiad a bod yn rhan o'r tîm a sefydlir i adeiladu ar eu cryfderau cyfredol a chwrdd â'r anghenion a adnabyddwyd.
- Dylai **gwybodaeth** am blant/pobl ifanc/teuluoedd gael ei **rhannu'n rhwydd ac effeithiol** ond yn **briodol ac yn ddiogel.**

Ond, dyw ACT **ddim yn golygu:**

- **Ffurflen yn unig** – Mae'n golygu cael sgwrs gyda phlentyn a'r teulu, er mwyn adnabod anghenion, a sefydlu cefnogaeth.
- **Proses atgyfeirio** – nid "atgyfeirio" yw'r bwriad, ond gweithio fel tîm.
- **Gwarant o wasanaeth** – dyw atgyfeirio at y rhaglen Cefnogaeth i'r Teulu ddim yn gwarantu gwasanaeth ac nid ddylid meddwl am y gwasanaeth na'i gyflwyno i'r teulu yn y ffordd yma.
- **Ymyrraeth mewn argyfwng** – Ni fwriedir Tîm o Gylch y Teulu i fod yn ddewis olaf a ddylai fod ar gyfer sefyllfaoedd sydd wedi gwaethygu neu wedi cyrraedd argyfwng.
- **Biwrocratiaeth anhyblyg** – Mae hyblygrwydd yn y system sy'n caniatáu i chi ddefnyddio eich barn eich hun ar sut i ddefnyddio'r TGT mewn sefyllfaoedd gwahanol.

# Ble allaf i gael help?

Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer Rhaglen Cefnogi Teuluoedd Torfaen a llyfryn cyfarwyddyd ar gael i ymarferwyr. Am fwy o wybodaeth ac i gael gwybod am sesiynau hyfforddi, cysylltwch â'r Cydlynydd TAF

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu angen help yn ystod y broses TGT, cysylltwch â:



Gogledd 01495 742827

De 01495 742854

Cydlynydd TGT 01495 766972

